



Cyngor Caerdydd
Datganiad Llywodraethu
Blynyddol 2017/18



CREV GWIR IN THESE STONES
FEL GWYDR HORIZONS
O FWRNAIS AWENSING

1. Cwmpas Cyfrifoldeb

1. Mae Cyngor Caerdydd (y Cyngor) yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo'n briodol, gan ystyried cyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Cyngor yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i lywodraethu ei faterion, a hwyluso ymarfer ei swyddogaethau'n effeithiol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.
2. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am Awdurdod Harbwr Caerdydd, sydd wedi ei gynnwys yn y Cyngor. Y Cyngor hefyd yw'r Awdurdod Gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa Bensiwn) ac Awdurdod Iechyd Porthladd Caerdydd (CHAI), a hwn yw'r Corff Atebol ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (Prifddinas-Ranbarth Caerdydd). Mae'r trefniadau llywodraethu a nodir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn cael eu dogfennu trwy ystyried meysydd cyfrifoldeb y Cyngor, ac i ba raddau y mae'r Cyngor yn gyfrifol am lywodraethu.
3. Mabwysiadodd y Cyngor y fframwaith 'Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol', a ddatblygwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE). Esbonia'r datganiad hwn sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r Fframwaith Llywodraethu a sut mae'n bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.
4. Mae'r trefniadau llywodraethu yn y tri is-gwmni sy'n eiddo i'r Cyngor a fasnachodd yn 2017/18, sef City Transport Services Ltd. (Bws Caerdydd) Canolfan Technoleg Busnes Caerdydd (CBTC) ac Atebion Solutions, yn destun i adolygiad cyfnodol. Ni chawsant eu hadolygu gan y Cyngor yn 2017/18. Mae gan y Cyngor hefyd fuddiant mewn cerbyd pwrpas arbennig (CSC Foundry Limited) a reolir gan Gydbwyllgor ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

2. Pwrpas y Fframwaith Llywodraethu

5. Cynhwysa'r Fframwaith Llywodraethu y systemau, prosesau, diwylliant a'r gwerthoedd a ddefnyddir i gyfarwyddo a rheoli'r Cyngor a'r modd y mae'n rhoi cyfrif, yn ymgysylltu ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r Cyngor i fonitro cyflawniad ei amcanion strategol ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost-effeithiol. Noda Cyfansoddiad y Cyngor sut y gwneir penderfyniadau a'r gweithdrefnau a ddilynr trwy reolau, codau ymarfer a phrotocolau.
6. Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith ac fe'i cynlluniwyd i reoli risg i lefel resymol. Ni all ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion, ond mae'n seiliedig ar broses barhaus i nodi risgiau, blaenoriaethu a rheoli'n briodol.
7. Datblygwyd y Cod Rheolaeth Gorfforaethol drafft (y Cod) eleni, sy'n dogfennu sut rydym yn cymhwyso egwyddorion llywodraethu da (*fel y'i crynhoir yn Adran 4 o'r DLIB - Proses Asesu a Chrynodeb*). Adolygwyd y Cod drafft gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr 2018 a bydd y Pwyllgor Cyfansoddiad yn ei ystyried yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol. Unwaith y bydd y broses gymeradwyo lawn wedi'i chwblhau, cynhwysir y Cod yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

3. Y Fframwaith Llywodraethu

8. Mae'r Fframwaith yn cynnwys dwy egwyddor graidd a phum egwyddor ategol. Treiddia Egwyddorion A a B drwy weithrediad egwyddorion C i G, ond mae llywodraethu da yn

ddeinamig, ac mae'r Cyngor yn ei gyfanrwydd yn ymrwymedig i wella llywodraethu yn barhaus trwy broses o werthuso ac adolygu.

Egwyddorion craidd


- a. Ymddwyn gydag uniondeb gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesol, a pharchu rheol y gyfraith;
- b. Sicrhau bod ymgysylltu â rhanddeiliaid yn agored a chynhwysfawr.

Egwyddorion ategol

- c. Diffinio canlyniadau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy;
- d. Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i wneud y mwyaf o gyflawniad y canlyniadau arfaethedig;
- e. Datblygu capasiti'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo;
- f. Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref;
- g. Gweithredu arferion da mewn tryloywder, adrodd ac archwilio i ddarparu atebolrwydd effeithiol.

4. Y Broses Asesu a Chrynodeb

9. Mae'r DLIB yn crynhoi'r asesiad o lywodraethu yn erbyn y fframwaith llywodraethu ac mae'n cynnwys tair elfen:
 - 1) Datganiadau gan Uwch Reolwyr, y Rheolwr Archwilio a'r Pwyllgor Archwilio;
 - 2) Gwybodaeth ategol a thystiolaeth wedi'u mapio i'r egwyddorion llywodraethu da craidd ac ategol;
 - 3) Adolygiad Uwch Reolwyr o faterion llywodraethu sylweddol y Cyngor.
10. Mae'r tair elfen uchod, o'u cymryd gyda'i gilydd, yn cynrychioli'r asesiad o lywodraethu, trwy safbwyntiau'r Uwch Dîm Rheoli (UDRh) a barn annibynnol y Rheolwr Archwilio Mewnol a'r Pwyllgor Archwilio yn seiliedig ar eu rhaglenni gwaith priodol ac asesiad o'r system rheolaeth fewnol.
11. Am ragor o wybodaeth a manylion, caiff y wybodaeth gefnogol ei mapio i'r egwyddorion fframwaith llywodraethu yn y DLIB ac yna ceir datgeliad agored gan yr UDRh o'r materion llywodraethu sylweddol sy'n effeithio ar y sefydliad fel camau gweithredu cryno i ymdrin â hwy.
12. Amlinella'r diagram isod elfennau'r asesiad hwn.



i) Datganiadau Sicrwydd

13. Gwneir y datganiadau canlynol ar ddiwedd y flwyddyn, ar ôl ystyried y wybodaeth am berfformiad, datgeliadau llywodraethu a chanfyddiadau archwilio a rheoleiddio adroddiadau gan aseswyr mewnol ac allanol i'r Cyngor.

Datganiad Uwch Reolwyr

14. Fel Uwch Dîm Rheoli, mae gennym drefniadau hunanasesu cyfarwyddiaeth a llywodraethu corfforaethol yn eu lle yn ystod 2017/18. Seiliwyd yr asesiad ar yr aeddfedrwydd llywodraethu yr oedd tystiolaeth ohono ym mhob Tîm Rheoli Cyfarwyddiaeth yn erbyn cyfres o ddatganiadau sicrwydd. Roedd pob Cyfarwyddwr yn gyfrifol am gwblhau asesiad cadarn o lywodraethu o fewn eu cyfarwyddiaeth a nodi ac adrodd ar faterion llywodraethu sylweddol. Adolygodd yr Uwch Dîm Rheoli yr holl ffurflenni ym Mai 2018, ac awdurdododd y Prif Weithredwr y sefyllfa gyffredinol.
15. Gallwn adrodd ar asesiad cyffredinol o gymhwyso 'cryf' o lywodraethu da ar draws y meysydd sicrwydd. Roedd hyn yn seiliedig ar hunanasesiad gan ddefnyddio system graddio 5 pwynt yn amrywio o 'ddim yn ei le', 'defnydd cyfyngedig', 'defnydd cymysg', 'defnydd cryf' i 'wedi integreiddio'. Nodwyd yr aeddfedrwydd mwyaf mewn perthynas â pherfformiad a rheoli risg.
16. Amlygodd yr asesiad aeddfedrwydd gyfleoedd i wella disgyblaeth llywodraethu partneriaeth, lle cafwyd mwy o ddefnydd cymysg a thystiolaeth na meysydd eraill. Rydym hefyd wedi nodi cyfleoedd mewn rhai cyfarwyddiaethau i dargedu gwelliannau mewn rheolaethau mewnol, cydymffurfiaeth, atal a chanfod twyll, monitro cyllideb, agweddau ar gynllunio busnes a sicrhau rhaglenni a phrofiad. Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn cydnabod yr angen i flaenoriaethu camau gweithredu ar gyfer gwella er mwyn galluogi tystiolaeth gadarn o ddefnydd ar draws pob maes

i'r dyfodol. Mae'r holl Gyfarwyddiaethau yn cymryd perchnogaeth o'u hasesiadau a'r cyfle i ganolbwyntio ar eu meysydd unigol er mwyn gwella aeddfedrwydd llywodraethu yn seiliedig ar eu hasesiadau priodol wrth i ni symud i mewn i 2018/19.

17. Ar y cyd, mae'r Uwch Dîm Rheoli yn berchen ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ac maent wedi adolygu pob risg corfforaethol bob chwarter yn 2017/18. Bu pob Cyfarwyddwr yn rhagweithiol yn eu hymagwedd tuag at adnabod cynnar ac ymwybyddiaeth gynnar systematig o'r risgiau mwyaf sylweddol sy'n wynebu'r sefydliad. Defnyddir dull cymesur o reoli risgiau a dyrannu adnoddau yn seiliedig ar y graddfeydd risg a asesir iddynt.
18. Ar y cyd, mae'r Uwch Dîm Rheoli yn berchen ar gynllun gweithredu o faterion llywodraethu sylweddol y bu cynnydd cyson yn eu rheolaeth drwy gydol 2017/18. Cynhwysir y cynllun gweithredu yn natganiad llywodraethu blynyddol 2017/18.

Datganiad y Rheolwr Archwilio

(Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) - 2450)

19. Mae'r PSIAS yn datgan bod rhaid i'r "Prif Weithredwr Archwilio gyflenwi barn ac adroddiad archwilio mewnol blynyddol y gall y sefydliad ei ddefnyddio i hysbysu ei ddatganiad llywodraethu." Rhaid i hwn fod yn seiliedig ar asesiad gwrthrychol o'r fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth. Rhaid iddo hefyd gynnwys gwerthusiad o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y rheolaethau wrth ymateb i risgiau o fewn y systemau llywodraethu, gweithrediadau a gwybodaeth.
20. Paratowyd y farn hon gan y Rheolwr Archwilio, yn seiliedig ar ddarpariaethau PSIAS. Wrth baratoi a llunio'r farn hon, sicrhawyd nifer o ffynonellau, gan gynnwys:
 - *Aseiniadau Archwilio Mewnol* - gwaith a wnaed fel y blaenoriaethwyd o fewn y cynllun archwilio blynyddol. Mae pob aseiniad yn seiliedig ar risg i ddarparu gwerth ychwanegol ac i wneud y mwyaf o adnoddau. Mae hyn yn cynnwys rhai archwiliadau heb eu cynllunio, a gynhelir ar gais Uwch Reolwyr.
 - *Astudiaethau Gwerth am Arian Dethol*.
 - *Trafodaeth gydag Uwch Reolwyr* - cynhelir cyfarfodydd rheolwyr perthynas bob chwarter gyda Chyfarwyddwyr, ac mae'r Rheolwr Archwilio yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau/ Swyddog Adran 151 a'r Prif Weithredwr.
 - *Ymgynghoriad* - cyngor ac arweiniad a gynigir yn gyffredinol neu mewn materion penodol, gan gynnwys dylunio a datblygu systemau newydd, megis Procure to Pay (P2P) a Landlord Corfforaethol.
 - *Risg a Llywodraethu* - gwaith a wnaed yn archwilio cydlynu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r dogfennau cysylltiedig, a'r defnydd o'r dogfennau hyn i lywio'r broses gynllunio archwilio. Gwnaed gwaith arall hefyd ar feysydd llywodraethu corfforaethol (megis moeseg a gwerthoedd a rheoli perfformiad).
21. Yn seiliedig ar y rhaglen o waith archwilio a wnaed ac adolygiad ystyriol o'r dogfennau llywodraethu allweddol e.e. y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ystyrir bod cymhwyso'r fframwaith cyffredinol ar gyfer rheolaeth o fewn y Cyngor ar gyfer 2017/18 yn **effeithiol gyda chyfle i wella**. Seilir y farn hon gan gydnabod y pwysau cynyddol ar adnoddau o ran galw a chyllidebau a reolir gan ddiwylliant perfformiad cadarn. Nodir bod nifer o archwiliadau yn y Cyngor wedi cael barn archwilio "annigonol ac angen gwelliant mawr" gydag un archwiliad yn anfoddhaol. Parheir i wneud gwaith i fonitro gweithrediad yr argymhelliad ac asesu gwelliannau yn rheolaethau'r meysydd hyn.

Datganiad y Pwyllgor Archwilio

22. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio yn ystod 2017/18, barn ystyrllon y Pwyllgor yw bod gan y Cyngor, ar y cyfan, reolaethau ariannol cadarn a threfniadau llywodraethu yn eu lle. Caiff risgiau strategol sy'n cynrychioli'r gwir heriau sy'n wynebu'r Cyngor eu dal a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae'r enghreifftiau o ble mae'r Pwyllgor yn parhau i fod â phryderon, a fydd yn cael eu hymgorffori yn Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2018/19, yn cynnwys:

<p>Blaenoriaethu / Rheoli Cyllideb</p>	<p>Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cydnabod y pwysau ariannol parhaus y mae'r Cyngor yn ei wynebu ac wedi derbyn adroddiadau sy'n manylu ar yr heriau o ran blaenoriaethu a rheoli cyllidebau. Er bod y Pwyllgor yn nodi y rhagwelwyd y byddai'r sefyllfa ariannol gyffredinol yn gytbwys, rhagwelwyd peth gorwariant sylweddol ar draws cyfarwyddiaethau penodol. Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau wedi adrodd ar y sefyllfa alldro ym mhob diweddariad cyllid yn y Pwyllgor Archwilio eleni.</p> <p>Parha'r Pwyllgor Archwilio i fynegi pryder ynglŷn â gallu'r cyfarwyddiaethau i gyflawni'r cynigion arbedion cyllideb a roddwyd gerbron, a ddaw yn fater gynyddol bwysig wrth i'r paramedrau ariannol y mae'r Cyngor yn gweithredu y tu mewn iddynt gael eu cyfyngu ymhellach. Mae'n bositif bod nifer gynyddol o gynigion cyllideb yn cynnwys cynlluniau manwl, a bydd gan y Pwyllgor ddiddordeb yn lefel yr arbedion a gyflawnir yn 2018/19.</p>
<p>Rheolaeth Ariannol / Mewnol</p>	<p>Golyga'r gostyngiad parhaus mewn adnoddau, ynghyd â phoblogaeth sy'n tyfu a mwy o alw am wasanaethau cyhoeddus, bod y Cyngor yn wynebu heriau sylweddol yn y modd y bydd yn darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae diwygio ac ailgynllunio gwasanaethau yn alluogydd allweddol ar gyfer cwrdd â phwysau ariannol difrifol. Ceir angen clir i sicrhau bod rheolaethau mewnol cryf yn integreiddio o fewn prosesau a systemau newydd neu ddiwygiedig. Ar adeg pan fo'n rhaid i lawer o benderfyniadau gael eu gyrru gan gyllid, mae'n hanfodol nad yw rheolaethau mewnol yn cael eu hesgeuluso, neu'n ddiffygiol.</p> <p>Ffocws y Pwyllgor eleni oedd gwahodd pob Cyfarwyddwr i roi cyfrif am eu gwasanaethau mewn perthynas â rheoli risg, llywodraethu a sicrwydd rheolaeth fewnol ariannol. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn rhestr reolaidd o archwiliadau sydd wedi'u cwblhau gyda graddiad sicrwydd yn cael ei roi i bob un. Derbynia'r Pwyllgor restr o'r holl argymhellion archwilio, sy'n manylu ar y camau a gynigir, a p'un a fydd y terfynau amser a bennir yn cael eu bodloni ai peidio. Er bod gan y Pwyllgor Archwilio sicrwydd cyffredinol o reolaeth fewnol, byddwn yn parhau i dderbyn y wybodaeth hon a'i defnyddio er mwyn sicrhau bod rheolaethau mewnol ar draws y Cyngor yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas, a lle nad ydynt, eu bod yn cael eu nodi a bod camau lliniaru yn cael eu rhoi yn eu lle yn gyflym. Bydd y Pwyllgor yn parhau i ddal swyddogion i gyfrif am wasanaethau neu swyddogaethau lle nodwyd gwendidau ariannol, neu mewn rheolaeth fewnol. Rydym yn parhau i herio unrhyw amhariad mewn stiwardiaeth a rheolaeth ar arian cyhoeddus ac asedau, gan geisio camau rheoli prydlon a chymesur.</p> <p>Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio Gynllun Archwilio 2018/19 a bydd yn monitro ei gynnydd yn agos dros y flwyddyn. Rhoddir sylw arbennig i weld sut mae swyddogion wedi defnyddio'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol diwygiedig a'r Rheolau Sefydlog Contractau a Rheolau Caffael.</p>

<p>Gwytnwch Ariannol (gan gynnwys Rheoli'r Trysorlys).</p>	<p>Mewn sefyllfa o gyni, mae'r Pwyllgor Archwilio yn canolbwyntio ar sicrhau bod penderfyniadau ariannol yn cael eu gwneud a fydd yn fuddiol i'r sefydliad dros y tymor canolig a hirdymor, yn ogystal â bodloni anghenion y gwasanaeth presennol.</p> <p>Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio ddiweddariadau ar wydnwch ariannol fel rhan o'r diweddariadau cyllid gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ym mhob cyfarfod yn 2017/18. Er bod yr adroddiadau rheolaidd yn darparu sicrwydd ynghylch gwytnwch ariannol effeithiol, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cynnal ei ffocws ar fonitro'r defnydd o gronfeydd wrth gefn a chysylltiadau rhwng holl gynlluniau cyflenwi'r gyfarwyddiaeth i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig i wella cynllunio, integreiddio a rheoli.</p> <p>Bydd y Pwyllgor Archwilio yn parhau i geisio sicrhau sicrwydd arferion a strategaeth rheoli trysorlys cadarn. Mae hyn yn waith hanfodol, a fydd yn diogelu ac yn darparu'r gwerth gorau o fenthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor. Parhaodd y Pwyllgor Archwilio i fodloni ei hun bod lefelau a phroffiliau buddsoddiadau a benthyciadau trwy gydol y flwyddyn yn briodol ac yn unol ag Arferion, Strategaeth ac Adroddiadau Rheoli'r Trysorlys a gyflwynwyd. Bydd hyn yn parhau i fod yn faes ffocws allweddol yn 2018/19.</p>
<p>Llywodraethu Ysgolion a Chydymffurfiaeth</p>	<p>Yn hanesyddol, mynegodd y Pwyllgor Archwilio bryderon ynghylch materion llywodraethu a chydymffurfiaeth mewn ysgolion, sy'n gyfrifol am gyfran fwy o'r adroddiadau archwilio sy'n peri pryder. Mae'r duedd hon wedi gwella yn 2017/18 yn arbennig ar draws yr archwiliadau thematig a gynhaliwyd, a oedd yn samplu o leiaf hanner yr ysgolion yng Nghaerdydd. Mae'r sampl ehangach hon, serch ei bod ar feysydd rheolaeth fewnol a dargedwyd, wedi darparu lefel o gysur ond mae mwy o waith i'w wneud eto a bydd hyn yn parhau i fod yn ganolbwynt i'r Pwyllgor Archwilio yn 2018/19.</p> <p>Mae'r Pwyllgor yn cydnabod nad yw'r Cyngor yn gallu gosod rheolau i ysgolion gadw atynt ynglŷn â materion contractio, er y gellir cynnig cyngor ar arfer da. Parha'r maes hwn o ddiddordeb i fod yn flaenoriaeth i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn parhau i gefnogi cynhyrchu a defnyddio canllawiau arfer gorau mewn ysgolion i gryfhau stiwardiaeth a rheolaeth ariannol.</p>

ii) Fframwaith Llywodraethu - Gwybodaeth Ategol

A. Ymddwyn gydag uniondeb gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesol, a pharchu rheol y gyfraith.

23. Mae'n ofynnol i bob Aelod a Swyddog yn y Cyngor gydymffurfio'n llawn â Chodau Ymddygiad fel y'u nodir yn y Cyfansoddiad, sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau penodol Swyddogion ac Aelodau ac yn rhoi eglurder ar y rhyngwynebau rhwng y rolau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Swyddogaethau ac isadrannau wedi'u dirprwyo i Swyddogion;
- Cod Ymddygiad yr Aelodau;
- Cod Ymddygiad y Gweithwyr;
- Protocol ar Berthynas Aelodau/ Swyddogion;
- Ymgymriad Caerdydd - wedi'i lofnodi gan yr holl Aelodau ar etholiad ac yn tanlinellu eu dyletswyddau i'r Ddinas a'i dinasyddion.

24. Y Swyddog Monitro yw'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol, gyda'r ddyletswydd benodol i sicrhau bod y Cyngor, ei Swyddogion a'i Gynghorwyr Etholedig yn cynnal y safonau ymddygiad uchaf ym mhob peth y maent yn ei wneud, yn seiliedig ar Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 5 paragraff 24 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.
25. Mae gan y Pwyllgor Safonau a Moeseg gyfrifoldeb i fonitro a chraffu ar safonau moesegol yr Awdurdod, ei Aelodau, ei weithwyr ac unrhyw ddarparwyr cysylltiedig o wasanaethau'r Awdurdod, ac adrodd i'r Cyngor ar unrhyw faterion sy'n peri pryder. Caiff y Pwyllgor ei gadeirio gan berson annibynnol, ac mae ei rôl yn cynnwys pennu canlyniad cwynion yn erbyn Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig a monitro gweithdrefnau chwythu chwiban y Cyngor. Nodwyd wyth cwyn yn erbyn Aelodau yn 2017/18, gyda dwy ohonynt oddi wrth Aelodau eraill, un gan Swyddog, a phump gan aelodau'r cyhoedd. Adroddir ar ganlyniadau/statws pob cwyn i'r Pwyllgor Safonau a Moeseg bob chwarter.
26. Gwneir ymrwymiad cryf i sicrhau bod Codau Ymddygiad y Cyngor yn cael eu cadarnhau. Yn 2015, cyfeiriodd y Swyddog Monitro gwynion ynghylch ymddygiad Cyngorydd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Arweiniodd hyn at gasgliad ym mis Mawrth 2017 trwy Dribiwnlys Achos gan Banel Dyfarnu Cymru (APW) bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â Chod Ymddygiad y Cyngor. Cafodd y Cyngorydd ei ohirio rhag gweithredu fel aelod o'r Cyngor am fis.
27. Ym mis Mai 2017, etholwyd y Cyngorydd Huw Thomas yn Arweinydd newydd y Cyngor a phenododd Cabinet newydd. Er mwyn dysgu gwersi o brofiadau'r rhai a oedd wedi dal swydd Cyngorydd dros y tymor pum mlynedd, cawsant eu gwahodd i gwblhau Arolwg Ymadael Allanol ym mis Chwefror 2017. Dywedodd 61% o'r ymatebwyr y byddent yn sefyll ar gyfer eu hailethol, gyda'r rhai oedd yn sefyll i lawr yn nodi 'ymddeoliad', 'cydbwysedd bywyd-gwaith/pwysau amser', 'anfodlonrwydd â rôl' a rhesymau 'eraill' fel y rhai mwyaf cysylltiedig â'u penderfyniad. Cynhwyswyd cwestiynau ar brofiad personol o fwlio ac ymddygiadau gwahaniaethol yn yr Arolwg Ymadael ar gais y Pwyllgor Safonau a Moeseg. Adroddwyd am brofiad personol o fwlio ac ymddygiadau gwahaniaethol ar gyfraddau o 36% a 31% yn y drefn honno, ac ymddygiad annerbyniol arall o 15%. Adroddwyd ar dystio i fwlio ac ymddygiadau gwahaniaethol rhwng Cynghorwyr ar 68% a 79% yn y drefn honno, ac ar 32% a 21% yn y drefn honno rhwng Cynghorwyr a Swyddogion.
28. Er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd yn yr Arolwg Ymadael Allanol, gwnaed gwasanaeth cwnsela AD gweithiwr ar gael i'r holl Aelodau. Ystyriwyd canfyddiadau'r arolwg hefyd wrth ddatblygu Rhaglen Sefydlu Aelodau ar gyfer Aelodau newydd o Fai 2017. Cynhaliwyd Arolwg Aelodau dilynol ym mis Rhagfyr 2017 i ofyn am adborth ar ansawdd a chyflawnder y rhaglen Sefydlu Aelodau, ac i nodi profiadau Aelodau o fwlio ac ymddygiadau annerbyniol eraill. Ym mis Chwefror 2018, derbyniodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd ganfyddiadau'r arolwg yn ymwneud â sefydlu'r Aelodau, lle'r oedd 97% o'r ymatebwyr o'r farn bod y diwrnod sefydlu yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn, a 96% yn nodi bod hyfforddiant grŵp/hyfforddiant ffurfiol wedi'i hwyluso'n ddefnyddiol. Nodwyd camau gweithredu mewn perthynas â chefnogaeth i dechnoleg, mentora/cymorth cyfoedion a phrosesau gweinyddol, sydd wedi eu hystyried gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol ar gyfer eu datblygu ymhellach.
29. Derbyniodd y Pwyllgor Safonau a Moeseg ddadansoddiad o'r ymatebion yn ymwneud ag ymddygiad Aelodau ym mis Mehefin 2018. Adroddwyd am brofiad personol o fwlio ac ymddygiadau gwahaniaethol ar gyfraddau o 21% a 15% yn y drefn honno ac ymddygiad annerbyniol arall o 21%. Ymgwymerwyd â dadansoddiad manylach o'r canlyniadau yn ôl rhyw ac oed a gwelwyd bod mwy o ymatebwyr benywaidd (56%) wedi profi bwlio a gwahaniaethu neu ryw fath o ymddygiad annerbyniol na'u cydweithwyr gwrywaidd (50%). Cyfeiriwyd y mater hwn at y Grŵp Menywod Bob Plaid i'w ystyried.

30. I Aelodau, mae 'Ymgymeriad Caerdydd' yn nodi disgwyliadau ymddygiad yn unol ag 'Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus'. Roedd y Dilyniant Asesiad Corfforaethol, a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ym mis Chwefror 2016, yn cydnabod y trefniadau llywodraethu hyn, ond daeth i'r casgliad y gallai'r Pwyllgor Safonau a Moeseg wneud mwy i orfodi egwyddorion Ymgymeriad Caerdydd. Er mwyn ymdrin â'r argymhelliad hwn, cyflwynodd y Pwyllgor Safonau a Moeseg sesiynau Briffio Aelodau ddwywaith y flwyddyn, sydd wedi parhau i adrodd ar waith y pwyllgor a thanlinellu pwysigrwydd Ymgymeriad Caerdydd ac ymddygiad Aelodau.
31. Mae'n ofynnol i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig gofrestru eu buddiannau personol mewn unrhyw fusnes i'r awdurdod, ac i gadw at arferion cysylltiedig yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau. Cyhoeddir y datgeliadau ar wefan y Cyngor o fewn gwybodaeth proffil aelodau. Mae Buddiannau Personol a Pholisi Cyflogaeth Eilaidd Swyddogion yn ei gwneud yn ofynnol i staff ddatgelu unrhyw fudd personol sydd mewn gwirionedd, neu a allai, wrthdaro â'u dyletswyddau i'r Cyngor a phob cyflogaeth eilaidd. Mae'r polisi'n nodi sut mae holl weithwyr y Cyngor yn rhwymedig, o dan God Ymddygiad y Gweithwyr, i sicrhau nad yw eu buddiannau preifat yn gwrthdaro â'u dyletswyddau cyhoeddus, ac i gydymffurfio â rheolau'r Cyngor ar gofrestru a datgan buddiannau ariannol a'r rhai nad ydynt yn ariannol. Mae'r UDRh a'r Pwyllgor Safonau a Moeseg yn bwriadu adolygu'r gweithdrefnau ar gyfer buddiannau personol swyddogion y flwyddyn nesaf.
32. Mae Gwerthoedd Corfforaethol y Cyngor yn canolbwyntio ar degwch, bod yn agored a chydweithio. Cefnoga'r Cyngor ddiwylliant o ymddygiad yn seiliedig ar y gwerthoedd hyn, sy'n arwain sut y rhoddir gweledigaeth hirdymor y Cyngor ar waith, yn ogystal â sut mae Aelodau a Swyddogion yn cyflawni eu rolau o ddydd i ddydd. Mae cynllunio corfforaethol a chyfarwyddiaeth a threfniadau perfformiad a datblygiad personol yn cyd-fynd â chyflenwi gwerthoedd a blaenoriaethau corfforaethol.
33. Dangosodd Arolwg Gweithwyr 2017 welliant mewn profiadau a chanfyddiadau staff ar draws pob un o'r 10 datganiad ymateb ers cynnal yr Arolwg diwethaf yn 2015. Roedd yr arolwg, a oedd yn eithrio gweithwyr mewn ysgolion, yn cynnwys materion gan gynnwys gwybodaeth, cyfathrebu ac ymgysylltu, dysgu a datblygu, rheoli perfformiad, iechyd a llesiant, gwerthoedd y Cyngor, blaenoriaethau a siarter y gweithwyr. Ar gyfer pob datganiad arfer gorau, yr ymateb amlaf oedd 'lefel uchel' o gytundeb, gydag ymateb cyfartalog (canolig) o 'lefel ganolig' o gytundeb.
34. Er bod ymatebion yr Arolwg Gweithwyr wedi bod yn gadarnhaol, roedd y gyfradd ymateb o 33.9% yn ostyngiad o gyfradd ymateb 2015 o 51.6%. Bydd y ffactorau a arweiniodd at y gyfradd ymateb uwch yn 2015 yn cael eu hadolygu wrth gynllunio arolygon yn y dyfodol, megis cynnal yr arolwg yn gyfochrog â Sioeau Teithiol y Prif Weithredwr a chyfranogiad Llysgennad. Er mwyn cynyddu'r gyfradd ymateb ymhellach, bydd Arolygon Gweithwyr a gweithgarwch ymgysylltu yn y dyfodol yn cynnwys pwyslais newydd ar rôl hanfodol rheolwyr wrth gyfathrebu'n gyson â staff ac adeiladu tîm/ gweithlu ymgysylltiedig.
35. Bu Strategaeth y Gweithlu a Siarter Gweithwyr ar waith drwy gydol 2017/18 ac mae gweledigaeth a gwerthoedd y Cyngor yn ategu ac yn cyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol:
- Mae'r Siarter Gweithwyr yn nodi disgwyliadau'r holl staff (gweithwyr, rheolwyr ac uwch reolwyr) a ffurfiodd ran o'r broses gosod amcanion ar gyfer adolygiadau personol. Ei nod yw ymdrin â'r materion a godwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Medi 2014 fel rhan o'r Asesiad Corfforaethol a'r Adolygiad Cymheiriaid Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) cynharach.
 - Ceisia Strategaeth y Gweithlu gyflenwi canlyniadau ar gyfer a chyda gweithwyr, o fewn diwylliant sy'n cefnogi gweithlu hyblyg, medrus, ymgysylltiedig ac amrywiol.

36. Mae'r Cyngor yn cymryd twyll, llygredd a chamweinyddu a gefnogir o ddifrif, gyda chefnogaeth y polisïau canlynol i atal a rheoli digwyddiadau o'r fath:
- Rheolau Gweithdrefnau Ariannol;
 - Rheolau Sefydlog Contractau a Rheolau Caffael;
 - Polisi Chwythu'r Chwiban;
 - Polisi Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd;
 - Polisi a Gweithdrefn Gwyngalchu Arian;
 - Polisi Diogelwch TGCh;
 - Polisi a Gweithdrefn Diogelu Data;
 - Polisïau AD ynglŷn ag ymchwilio a disgyblu staff.
37. Ymgymerir â hyfforddiant sefydlu gan staff i sicrhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ystod o bolisïau, gweithdrefnau a rheoliadau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â Rheolaeth Ariannol, Diogelu Data, Iechyd a Diogelwch, Cydraddoldeb a Diogelwch TG. Mae hyfforddiant sefydlu hefyd yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r gwerthoedd corfforaethol a sut y dylid eu cymhwyso.
38. Mae gan y Cyngor Bolisi Chwythu'r Chwiban lle mae staff a chontractwyr yn cael eu hannog i sôn am gamymddygiad neu ymddygiad anghyfreithlon o fewn y sefydliad, sy'n effeithio ar y cyhoedd neu bobl eraill (gan wneud datgeliad er budd y cyhoedd). Adroddwyd am bedwar achos datgelu camarfer i'r Swyddog Monitro yn 2017/18.
39. Y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau yw Swyddog Adran 151 y Cyngor sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros weinyddiaeth gyllidol y Cyngor. Mae trefniadau rheoli gyllidol y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu Datganiad CIPFA ar Rôl y Prif Swyddog Cyllid mewn Llywodraeth Leol (2016).

B. Sicrhau bod ymgysylltu â rhanddeiliaid yn agored a chynhwysfawr.

40. Trwy ei Werthoedd Corfforaethol, mae'r Cyngor yn amlinellu ymrwymiad i fod yn "agored a gonest am y dewisiadau anodd yr ydym yn eu hwynebu, a chaniatáu i bobl ddweud eu dweud am yr hyn sy'n bwysig iddynt hwy a'u cymunedau." Mae cysylltu, ymgysylltu a chydweithio â dinasyddion yn ganolog i gyflawni'r gwerth hwn, ac fe'u hamlinellir fel a ganlyn.
41. Er mwyn cefnogi natur agored, mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar gyhoeddi symiau cynyddol o ddata trwy ddatblygu Strategaeth Ddata Agored fel rhan o Gynllun Cyhoeddi'r Cyngor. Mabwysiadwyd dull llywodraeth y DU o gyhoeddi data i leiafswm o 3 sêr allan o raddfa 5 seren. Mae hyn yn golygu y dylai data fod ar gael yn hawdd a'i fod ar gael i'w aildefnyddio yn ôl yr angen (yn amodol ar delerau a amlinellir yn y Drwydded Llywodraeth Agored). Eleni, mae'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth wedi parhau i nodi setiau data ar gyfer eu cyhoeddi, ac mae'n cynnal cyhoeddi'r setiau data presennol.
42. Ceir dadl agored a her ar berfformiad a rheoli risg gydag adroddiadau ac adolygu chwarterol yn y Tîm Uwch Reolwyr (UDRh) a herio a goruchwylio pellach yng nghyfarfodydd y Cabinet, y Pwyllgor Craffu ac Archwilio. Mae Grŵp Llywio Rheoli Risg yn ei le i ddatblygu ac adolygu'r fframwaith rheoli risg a fframweithiau atebolrwydd ac i gefnogi'r UDRh wrth nodi risgiau corfforaethol newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. Defnyddir 'Siambwr Seren' gan y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr ac Aelodau'r Cabinet i gytuno ar gamau sy'n deillio o ddadl agored ar heriau perfformiad a chyflenwi gwasanaethau.
43. Yn gyffredinol, mae cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgorau yn agored i'r cyhoedd eu mynychu heblaw lle trafodir gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig, fel y'i diffinnir gan y gyfraith. Mae cyfarfodydd y Cyngor Llawn yn cynnwys cyfleuster ar gyfer cwestiynau cyhoeddus, ac mae Pwyllgorau Craffu y Cyngor yn gwahodd cyfraniadau rhanddeiliaid i'w rhaglen graffu trwy ymarferion ymchwil ac ymgynghori a thrwy fynediad uniongyrchol i

Bwyllgorau. Drwy gydol 2017/18, bu gan y Cyngor we-ddarllediadau o Gyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgor Cynllunio a chyflwynwyd gwefannau ar gyfer tri chyfarfod o'r Pwyllgor Craffu i alluogi hygyrchedd ehangach y cyhoedd. Mae papurau ac adroddiadau hefyd ar gael ar wefan y Cyngor.

44. Rhoddir cyfle i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill ddweud wrth y Cyngor beth maent yn ei feddwl am y gwasanaethau a ddarperir trwy Bolisi Sylwadau, Cwynion a Chanmoliaeth y Cyngor. Mae'n adlewyrchu'r arweiniad a roddir ym Mholisi Enghreifftiol a Phapur Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ymdrin â Chwynion, yn ogystal â chanllawiau a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, sy'n rhoi mwy o bwyslais ar ddatrys cwynion yn brydlon. Rhoddir gwybod i'r Cabinet am y nifer o gwynion a dderbynnir yn flynyddol.
45. Bu dinasyddion, cymunedau a phartneriaid yn rhan o sgwrs tair blynedd 'Sgwrs Caerdydd' am ddyfodol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd. Ymgynghorwyd ar y gyllideb ar gyfer 2017/18 a oedd yn cynnwys 2,520 o bobl yn cwblhau arolwg 'Newidiadau i Gaerdydd' a hefyd cyflwynwyd barn gyhoeddus trwy ddeisebau, cyfryngau cymdeithasol, presenoldeb mewn digwyddiadau 'galw heibio' ymgysylltu â'r cyhoedd, a thrwy ohebiaeth. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am fwy na phum wythnos ac roedd yn cynnwys deunaw digwyddiad ymgysylltu â'r gymuned, holiadur ar-lein, holiaduron cyfryngau cymdeithasol a holiaduron copi caled a ddsbarthwyd ar draws y ddinas.
46. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda rhanddeiliaid sefydliadol y mae'r Cyngor yn atebol iddynt, gan gynnwys Llywodraeth Cymru ac Archwilwyr Allanol y Cyngor (Swyddfa Archwilio Cymru). Gwnaed ymdrech hefyd i feithrin perthynas agored ac effeithiol rhwng y Cyngor Sir a'r chwe Chyngor Cymuned yng Nghaerdydd trwy Siarter Cyngorau Cymuned ("y Siarter"). Mae'n adlewyrchu'r Model Siarter a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ac mae'n seiliedig ar gydraddoldeb partneriaeth rhwng y ddwy haen o lywodraeth leol.
47. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd (BGC), yn cynrychioli partneriaeth statudol o sefydliadau'r sector cyhoeddus a gwirfoddol, dan gadeiryddiaeth Arweinydd y Cyngor i gyflawni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a'r strategaeth partneriaeth integredig sengl 'Beth sy'n Bwysig'. Eleni, ffocws strategol y BGC fu datblygu Cynllun Llesiant lleol statudol, lle sefydlwyd amcanion llesiant i gefnogi cyflawni nodau llesiant cenedlaethol. Mae'r Cynllun Llesiant yn ymateb i'r dystiolaeth a nodir mewn Asesiad Llesiant ac mae'n canolbwyntio ar feysydd cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus sydd, yn y bôn, yn gofyn am weithio mewn partneriaeth rhwng gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol, a dinasyddion Caerdydd. Roedd y Cynllun Llesiant Drafft yn destun Adolygiad Polisi a Chraffu Perfformiad ym mis Tachwedd 2017, a 12 wythnos o ymgynghori ac ymgysylltu trwy ddigwyddiadau lleol. Cafwyd cymeradwyaeth derfynol gan y BGC, y Cyngor Llawn a sefydliadau sy'n aelodau statudol o fewn y terfyn amser statudol o 3^{ydd} Mai 2018.
48. Mae Partneriaethau Cymdogaeth o staff amlasiantaeth yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Torrwyd yn ôl ar y gwaith eleni ac mae trefniadau newydd yn dal i gael eu hystyried ar gyfer y flwyddyn nesaf. Bwriad yr adolygiad yw deall sut y gellir cydgyssylltu a rheoli'n well gweithio mewn partneriaeth yn y gymdogaeth ac adnoddau'r Cyngor, er mwyn darparu gwasanaethau cydgyssylltiedig ac ategol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ein cymunedau.
49. Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn ymgynghoriad â'r Undebau Llafur a chyhoeddwyd 'Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Newid' ym mis Chwefror 2015. Cefnoga hwn Arweinydd y Cyngor, y Cabinet a'r Undebau Llafur i weithio gyda'i gilydd i ddiwygio gwasanaethau'r Cyngor mewn modd cost effeithiol, gan ddarparu lefel o sicrwydd i staff ar brif faterion a diogelu swyddi lle bynnag y bo modd.

C. Diffinio canlyniadau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.

50. Noda'r Cynllun Corfforaethol flaenoriaethau'r sefydliad ac amcanion gwella clir sydd i'w cyflenwi gyda chefnogaeth Aelodau Arweiniol. Fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Chwefror 2017 ar gyfer y cyfnod 2017 - 2019, wedi'i hysbysu gan yr ymgynghoriad ar gynigion cyllideb ar gyfer 2017/18. Mae'n gosod y cyfeiriad strategol ac yn darparu fframwaith ar gyfer Cynlluniau Cyflenwi Cyfarwyddiaeth ac amcanion rheoli perfformiad. Cynhaliwyd blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol o'r llynedd fel a ganlyn:

- Gwell addysg a sgiliau i bawb
- Cefnogi pobl agored i niwed
- Creu rhagor o swyddi a swyddi cyflog gwell
- Gweithio gyda'n gilydd i drawsnewid gwasanaethau

51. Caiff cyflenwi'r Cynllun Corfforaethol ei fonitro trwy Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor, sy'n cynnwys:

- Sesiynau Her Perfformiad Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor
- Cyfarfodydd Her Perfformiad ar y Cyd rhwng y Cabinet a'r Tîm Uwch Reolwyr
- Fforwm Her yn cynnwys Aelodau, Uwch Swyddogion a chymorth cyfoedion allanol i herio cynnydd y Cyngor yn erbyn ei daith gwelliant a chyflenwi'r Cynllun Corfforaethol.

52. Yn dilyn ethol arweinydd newydd ym Mai 2017, cymeradwywyd 'Uchelgais Prifddinas' fel datganiad o flaenoriaethau'r weinyddiaeth newydd ym mis Gorffennaf 2017, yn cynnwys "ymrwmiadau i Gaerdydd" sy'n cwmpasu holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r Uchelgais Prifddinas yn nodi sut y bydd cyfres o egwyddorion yn sail i ddatblygiad y Cyngor yn y blynyddoedd i ddod, sef: cael y pethau sylfaenol yn iawn, digidol yn gyntaf, rhoi cymunedau ar y blaen ac yn ganolog, cydgyssylltu gwasanaethau rheng flaen, partneriaethau pwrpasol a bargaen newydd i ddinasyddion. Y pedair blaenoriaeth yw:

- Gweithio dros Gaerdydd: Sicrhau y gall pob un o'n dinasyddion gyfrannu at lwyddiant y ddinas, a chael budd ohono
- Gweithio dros Gymru: Mae Cymru lwyddiannus angen prifddinas lwyddiannus
- Gweithio dros y Dyfodol: Rheoli twf y ddinas mewn ffordd gynaliadwy
- Gweithio dros Wasanaethau Cyhoeddus: Sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyflenwi'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gynaliadwy yn wyneb y galw cynyddol a lleihau cyllidebau.

53. Ym mis Rhagfyr 2017, cymeradwyodd y Cabinet Raglen Cyflenwi Uchelgais Prifddinas 4-blynedd i ddisodli Rhaglen Datblygu Sefydliadol y Cyngor (ODP). Dilynodd sefydlu'r Rhaglen Cyflenwi Uchelgais Prifddinas adolygiad annibynnol o'r ODP ym mis Mai 2017, a ddaeth i'r casgliad bod y rhaglen newid wedi cyflenwi ei phwrpas yn effeithiol ac y dylai ganiatáu i'r Cyngor ymateb ac addasu i'r amgylchedd gweithredol sy'n newid. Yn unol ag argymhellion yr adolygiad annibynnol, mae'r rhaglen newydd yn canolbwyntio ar nifer llai o raglenni trawsnewidiol sy'n cyd-fynd â chyflenwi blaenoriaethau a chyllidebau corfforaethol. Mae'r Rhaglen Gyflenwi Uchelgais Prifddinas yn cynnwys dwy elfen ar wahân:

- Moderneiddio: Trawsnewid systemau a phrosesau corfforaethol sy'n cefnogi cyflenwi gwasanaethau, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Adnoddau; a
- Gwasanaethau Gwydn: Trawsnewid gwasanaethau rheng flaen, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Pobl a Chymunedau.

54. Ymrwymodd y Cyngor i'r Siarter Datblygu Cynaliadwy a gwneud penderfyniadau sy'n cynhyrchu'r canlyniadau hirdymor gorau i Gaerdydd a dyfodol Cymru. Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn y Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sy'n anelu at wella datblygiad,

seilwaith, defnydd tir, datblygu economaidd a chyflogaeth. Cefnogir ei chynigion gyda chronfa o £1.2 biliwn, sydd â tharged o greu 25,000 o swyddi erbyn 2036, gan godi £4 biliwn o fuddsoddiad y sector preifat a sicrhau twf economaidd. Mae'r Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynnwys Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a deg Cyngor yn cydweithio, trwy fenter ar y cyd.

55. Cymeradwywyd cynllun busnes strategol pum mlynedd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gan y Cabinet Rhanbarthol o 10 arweinydd awdurdod lleol ym mis Chwefror 2018, i nodi'n fanwl sut y bydd £495 miliwn o'r arian yn cael ei ddefnyddio i gyflenwi ei ganlyniadau. Cymeradwywyd dau fuddsoddiad sylweddol gan y Cabinet Rhanbarthol eleni. Dyrannwyd cyllid o £37.9 miliwn i gefnogi datblygu clwstwr diwydiannol lled-ddargludyddion yn y rhanbarth, sy'n anelu at gynyddu buddsoddiad o hyd at £375 miliwn o'r sector preifat, a chreu hyd at 2,000 o swyddi gwerth uchel. Mae'r Cabinet Rhanbarthol hefyd wedi cytuno mewn egwyddor i ymrwymo £40 miliwn i gefnogi'r Metro Central Development sydd werth £180 miliwn, project i ddarparu Cyfnewidfa Drafnidiaeth Ganolog newydd ym mharth cyflogaeth graidd Caerdydd.
56. Derbyniwyd y Setliad Terfynol Llywodraeth Leol ar gyfer 2017/18 i Gaerdydd ym mis Rhagfyr 2016, a oedd yn cyfateb i gynnydd cyllidol o 0.5%. Dyrannwyd cyllid ychwanegol o £2.3 miliwn o gymharu â 2016/17, ond mae'r cynnydd gwirioneddol mewn grym gwario yn £294,000 unwaith y bo cyfrifoldebau newydd a ffactorau gwahaniaethol o un flwyddyn i'r llall wedi cael eu hystyried. Parhaodd y Cyngor i ganolbwyntio ar ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol o fewn cyllideb gytbwys.
57. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynigion cyllideb y Cyngor 2017/18 "Newidiadau i Gaerdydd" rhwng 10 Tachwedd 2016-16 Rhagfyr 2016. Fel yr amlinellir dan egwyddor *B. Sicrhau bod ymgysylltu â rhanddeiliaid yn agored a chynhwysfawr* y DLIB hwn, defnyddiwyd nifer o fecanweithiau i sicrhau bod yr ymgynghoriad mor hygyrch â phosib. Roedd yr ymgynghoriad yn galluogi aelodau'r cyhoedd i gyfleu eu barn ar gynigion y gyllideb. Hysbysodd hyn y penderfyniadau terfynol ar newidiadau i'r gwasanaeth, a oedd yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gwerthfawr yn wyneb cyni parhaus.
58. Mae gan y Cyngor fwch cyllidebol o £91 miliwn ar gyfer y cyfnod 2019/20 i 2021/22. Mae'r rhagolygon dros y tymor canolig yn destun pryder ac mae Adroddiad Cyllideb 2018/19 yn nodi'r heriau o ran cyni ariannol parhaus, pwysau ariannol cynyddol a'r anhawster i wrthbwyso a gwireddu arbedion cyllideb o un flwyddyn i'r llall. Bu Strategaeth Gyllideb gyflawnadwy yn ddogfen allweddol ar gyfer bodloni'r newidiadau radical y mae'n rhaid parhau i'w gwneud i ffurfio'r sefydliad er mwyn iddo barhau i fod yn weithredol ac yn wydn.

D. Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i wneud y mwyaf o gyflawniad y canlyniadau arfaethedig.

59. Er mwyn sicrhau bod gwneuthurwyr penderfyniadau yn wybodus, cefnogir pob penderfyniad a wneir gan Aelodau gan adroddiadau ysgrifenedig gan Swyddogion ar y goblygiadau cyfreithiol, AD ac ariannol sy'n deillio o'r penderfyniad. Mae'n ofynnol hefyd i'r adroddiadau hyn amlinellu'r deilliannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, y risgiau allweddol a ffyrdd gweithredu amgen sydd ar gael.
60. Er mwyn cefnogi cyflenwi gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor wedi datblygu amcanion llesiant a datganiad llesiant fel rhan o ddatblygiad y Cynllun Corfforaethol blynyddol. Mae'r broses hon wedi helpu i integreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r Ddeddf mewn prosesau sefydliadol a gwneud penderfyniadau.
61. 'Holi Caerdydd' yw gweithgaredd ymgysylltu mwyaf a mwyaf hirhoedlog y Cyngor, ac ers 2002 mae wedi galluogi dinasyddion i rannu eu barn am y ddinas ac amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus. Hysbyswyd Cynllun Corfforaethol 2017-19 gan farn dros 4,000 o

bobl a gymerodd ran yn 'Holi Caerdydd', ynghyd â'r 2,520 o bobl a gymerodd rhan yn yr ymgynghoriad cyllideb 'Newidiadau i Gaerdydd'.

62. Er mwyn sicrhau yr ymgynghorir â staff a'u bod yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau, defnyddir gwahanol sianelau cyfathrebu gan gynnwys Sioeau Teithiol Corfforaethol, Diweddariad y Prif Weithredwr, diweddariadau ar y cyd gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr, Crynodeb Craidd, cylchlythyron 'Ein Newyddion' ac 'Eich Mewnflwch'. Mae gan Rwydwaith Llysgennad y Cyngor weithwyr ar bob lefel o bob rhan o'r Cyngor i helpu i symud ymlaen â'r pedwar ymrwymiad corfforaethol o'r Arolwg Gweithwyr sef: Iechyd a Llesiant; Rheoli Perfformiad; Dysgu a Datblygiad; a Llais Gweithwyr.
63. Mae'r ymgynghoriad ar benderfyniadau drafft sy'n deillio o gynigion cyllideb yn gadarn ac mae'r effaith ar ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth yn ystyriaeth bwysig. Bu cyfathrebiadau Sgwrs Caerdydd a 'Newidiadau ar gyfer Caerdydd' â dinasyddion yn ffordd bwysig o nodi a dylunio gwasanaethau i ddiwallu anghenion a disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion yng Nghaerdydd yng nghyd-destun cyfyngiadau cyllidebol. Er mwyn cefnogi penderfyniadau cadarn ar sail projectau, mae'r Cyngor wedi datblygu templed Achos Busnes gan ddefnyddio "Model Pum Achos" Swyddfa Fasnach y Llywodraeth (OGC), fel yr argymhellwyd gan Drysorlys EM i'w ddefnyddio gan gyrrff y Sector Cyhoeddus.
64. Mae gan y Cyngor fframwaith rheoli perfformiad i hwyluso a mesur cyflenwi blaenoriaethau ar lefel y Ddinas, y Cyngor, Cyfarwyddiaethau a swyddogion. Mae'r fframwaith yn cynnwys Dangosyddion Strategol Cenedlaethol statudol (NSI) ynghyd â dangosyddion lleol i gefnogi dealltwriaeth eang o berfformiad. Cyflwynir y perfformiad blynyddol yn erbyn y dangosyddion hyn i Lywodraeth Cymru i'w harchwilio fel rhan o'r Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella ddiwygiedig o ganlyniad i Fesur Llywodraeth Leol (Cymru). Mae'r fframwaith hwn yn sicrhau bod aliniad rhwng Perfformiad yn erbyn targedau'r Cyngor, a bod yr amcanion hynny'n cael eu hadrodd yn gyhoeddus bob chwarter.
65. Datblygodd Strategaeth Gyllideb y Cyngor o ddull cyllidebu cynyddrannol, i un lle mae cyllidebau'n cael eu hysbysu i raddau helaeth gan flaenoriaethau corfforaethol a ffurf angenrheidiol y sefydliad i'r dyfodol. Gwnaed y newid mewn dull yn gyntaf i lywio 'Strategaeth y Gyllideb 2016/17 a'r Tymor Canolig', a pharhaodd y momentwm ohoni i gynllunio ymlaen wrth baratoi cyllideb 2017/18, trwy gyflwyno ffocws arferol tasgau strategaeth y gyllideb o un chwarter o leiaf.
66. Aliniwyd y themâu ar gyfer arbedion yn y Strategaeth Gyllidebol ar gyfer 2017/18 â chwestiynau cyllidebol cyffredinol a oedd yn rhan o ymgynghoriad Holi Caerdydd, mewn synergedd â blaenoriaethau cynllun corfforaethol y Cyngor, fel a ganlyn.
- Cynhyrchu incwm
 - Gweithio gyda phartneriaid ac eraill
 - Defnyddio technoleg
 - Adolygu cymorthdaliadau a grantiau
 - Cynigion sy'n wynebu'n fewnol
 - Ail/drydedd flwyddyn y cynigion
 - Lleihau/ailgynllunio'r gwasanaeth
67. Er mwyn rhoi mwy o hyder i gyflwyno arbedion, cyflwynwyd cynigion cyfarwyddiaeth 2017/18, a oedd yn amodol ar her i sicrhau perchnogaeth, cywirdeb, dichonoldeb, cyflawnadwyedd a rheoli risgiau cliriach.
68. Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad i wytnwch ariannol Cyngor Caerdydd ym mis Mawrth 2016, i asesu a yw'r cyngor yn rheoli gostyngiadau yn y gyllideb yn effeithiol er mwyn sicrhau gwydnwch ariannol parhaus. Y casgliad oedd:

'Mae'r Cyngor wedi gwella ei drefniadau ar gyfer cynllunio ariannol ac mae ganddo drefniadau rheoli ariannol a llywodraethu cadarn, ond erbyn hyn mae angen iddo ddatblygu cynlluniau cadarn i gefnogi cyflenwi ei gynigion arbedion yn brydlon'.

69. Aseswyd trefniadau rheolaeth ariannol a llywodraethu'r Cyngor fel risg isel, a chynllunio ariannol fel risg canolig. Roedd hyn yn gyson â chanfyddiadau adroddiad dilynol SAC a gyhoeddwyd ar 26 Chwefror 2016, a oedd yn cydnabod bod y Cyngor wedi gwella ei drefniadau Cynllun Ariannol Tymor Canolig / Rhaglen (MTFP) ac wedi codi proffil gwytnwch ariannol, ond gwnaed pedwar argymhelliad penodol i gryfhau ymhellach y prosesau cynllunio ariannol.
70. Mae arweiniad rheoli risg y Cyngor yn pwysleisio'r gofyniad i ymgorffori rheoli risg i bob lefel o fusnes, gan gynnwys rheoli risgiau a rennir trwy drefniadau rhaglen, projectau a phartneriaethau.

E. Datblygu capasiti'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo.

71. Rhoddodd y Cyngor ymrwymiad yn ei le i arweinyddiaeth effeithiol, a gydnabyddir yn Asesiad Corfforaethol Dilynol SAC 2016, a ddaeth i'r casgliad:

'Mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau gwell yn eu lle i gefnogi gwelliannau ac i ymdrin â materion hir sefydlog, ond erbyn hyn mae ar bwynt hollbwysig o ran eu hymgorffori os ydyw i gyflawni newid sylweddol wrth gyflenwi canlyniadau gwell'.

72. Cydnabu Swyddfa Archwilio Cymru ddiwylliant mwy ymgysylltiedig, gydag ymrwymiad da gan Aelodau a Swyddogion i fynychu cyfarfodydd llawn y Cyngor ac ymgysylltu â hwy. bod angen gwella ymgysylltiad mwy amrywiol Aelodau a arsylwyd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu, cyfarfodydd yr Arweinydd gydag arweinwyr gwrthbleidiau, y sesiynau Fforwm Her, Hyfforddiant Aelodau a Briffio Aelodau. Nodwyd hefyd y gofyniad i egluro rhai rolau a chyfrifoldebau o fewn fframwaith gwneud penderfyniadau y Cyngor.
73. Datblygodd y Cyngor Ddatganiad o Weithredu i ymateb i'r Asesiad Corfforaethol Dilynol a Rhaglen Perfformiad a Llywodraethu i ddatblygu ymhellach ac ymgorffori trefniadau rheoli perfformiad. Rhwng Chwefror a Mai 2017, adolygodd Swyddfa Archwilio Cymru gynnydd y Cyngor mewn perthynas â'i Ddatganiad Gweithredu. Daeth adroddiad dilynol y gwaith hwn i'r casgliad bod y Cyngor wedi dangos cynnydd digonol wrth weithredu cynigion 2016 ar gyfer gwelliant, a'i fod yn y broses o ymgorffori'r trefniadau rheoli perfformiad ac adrodd newydd.
74. Caiff y cyfrifoldebau ac awdurdod gwneud penderfyniadau eu nodi'n glir yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Mae'n dogfennu'r rolau a'r perthnasoedd ar gyfer gwneud penderfyniadau, rhwng y Cyngor Llawn, y Cabinet, Craffu a Phwyllgorau Anweithredol eraill. Mae hefyd yn manylu ar benderfyniadau a ddirprwyir i uwch swyddogion drwy'r gwahanol haenau rheoli.
75. Yn dilyn etholiad y Cyng. Huw Thomas fel Arweinydd y Cyngor ym mis Mai 2017, ffurfiodd Gabinet newydd. Y Cabinet yw'r rhan o'r Cyngor sy'n gyfrifol am y mwyafrif o benderfyniadau mawr. Mae'r Cabinet yn cynnwys yr Arweinydd a etholir gan y Cyngor, a hyd at naw cynghorydd arall y mae ef/hi wedi eu henwebu i'w cymeradwyo gan y Cyngor. Rhaid i'r Cabinet wneud penderfyniadau sy'n unol â pholisïau a chyllideb gyffredinol y Cyngor. Os yw'n dymuno gwneud penderfyniad sydd y tu allan i'r gyllideb neu'r fframwaith polisi, rhaid cyfeirio hyn at y Cyngor cyfan i benderfynu.
76. Mae rhaglen newid busnes strategol y Cyngor wedi'i halinio â blaenoriaethau'r weinyddiaeth newydd drwy'r Rhaglen Cyflenwi Uchelgais Prifddinas 4-blynedd, sy'n defnyddio dull llywodraethu arfer gorau (Sicrwydd Ansawdd Projectau (PQA)) i ddarparu cynllunio, monitro a chyflenwi effeithiol. Sefydlwyd y trefniadau llywodraethu ar gyfer y Rhaglen Cyflenwi Uchelgais Prifddinas, sy'n cynnwys diweddariadau rheolaidd i'r Uwch Dîm Rheoli a diweddariadau

chwarterol i Grŵp Perfformiad a Chyflenwi'r Cabinet. Adroddir ar adolygiad blynyddol o'r Rhaglen i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu.

77. Hefyd adolygwyd strwythur uwch reolwyr y Cyngor i alinio â chyflenwi Uchelgais Prifddinas a'i gefnogi. Y Prif Weithredwr (Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig) yw'r aelod uchaf o staff y Cyngor ac mae'n gyfrifol am reolaeth gyffredinol a chaiff ei gefnogi gan nifer o swyddi Cyfarwyddwyr a Chyfarwyddwr Cynorthwyol / Prif Swyddogion. Cymeradwywyd strwythur uwch reolwyr diwygiedig gan y Cyngor ym mis Tachwedd 2017, a ddatblygwyd o fewn y gyllideb uwch reolwyr presennol ac a hysbyswyd gan ddadansoddiad meincnodi yr Hay Group ym mis Gorffennaf 2017, a gymharodd strwythur rheoli Cyngor Caerdydd gyda Chynghorau Dinas Craidd a Chynghorau Unedol mawr eraill. Roedd y newidiadau a gymeradwywyd i'r model uwch reolwyr fel a ganlyn.

Swyddi newydd	Swyddi a ddilëwyd
<ul style="list-style-type: none"> • Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau • Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd (Cyfarwyddwr, Gweithrediadau Dinas yn flaenorol) • Prif Swyddog Digidol • Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Landlord Corfforaethol • Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Strydlun • Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmer • Cyfarwyddwr, Gweithrediadau Dinas • Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Gwasanaethau Plant • Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Gwasanaethau Masnachol • Rheolwr Gweithredol Pensaernïaeth Menter

78. Nod y Cyngor yw sicrhau bod gan Aelodau a Swyddogion y sgiliau, y wybodaeth a'r gallu i gyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol ac mae'n cydnabod pwysigrwydd pobl gymwys a hyfforddwyd yn dda. Mae staff ac Aelodau newydd yn mynychu rhaglen sefydlu i'w cyflwyno i'r Cyngor a'i werthoedd, amcanion, polisïau a gweithdrefnau. Mae Rhaglen Rheolwr Caerdydd fewnol yn cynrychioli ymrwymiad i gynyddu dysgu a datblygu staff â chyfrifoldebau rheoli llinell. Ymgorfforwyd y rhaglen yn dda, ac mae wedi hyfforddi mwy na 500 o staff mewn sgiliau rheoli a chyllid allweddol ers iddi ddechrau yn 2014. Cwblhaodd oddeutu 250 o reolwyr gymhwyster ILM lefel 3 ar ôl cymryd rhan yn y rhaglen.
79. Nod Rhaglen Dysgu a Datblygu Aelodau yw rhoi mynediad i'r Aelodau i ystod o gyfleoedd datblygu i'w cynorthwyo i gyflawni eu rolau fel Arweinwyr Cymunedol a chynrychiolwyr y Cyngor. Caiff y rhaglen ei hysbysu gan Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus CLILC ar gyfer Fframwaith Cymhwysedd Cynghorwyr, sy'n nodi'r ystod o sgiliau a gwybodaeth sy'n ofynnol i Aelodau eu cael. Datblygwyd rhaglen sefydlu 2017/18 gan Grŵp Llywio Datblygu Aelodau fel rhan o Broject Cymorth a Sefydlu Aelodau a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Datblygwyd y rhaglen i gynnwys sesiynau sefydlu ym mis Mai 2017, cyfres o sesiynau hanfodol yn ystod y 12 wythnos nesaf a sesiynau datblygu a gwybodaeth bellach ar bynciau penodol tan fis Rhagfyr 2017.
80. Caiff perfformiad ei werthuso'n bennaf trwy broses Adolygu Personol y Cyngor, sy'n darparu fframwaith i weithwyr a rheolwyr drafod perfformiad ac ymddygiad gwaith yn ogystal ag adnabod anghenion dysgu a datblygu. Mae'n galluogi gweithwyr i fod yn glir ynghylch eu rolau, eu cyfrifoldebau a'r ymddygiadau a ddisgwyllir ganddynt, gan roi dealltwriaeth glir o sut mae eu gwaith a'u hymdrechion yn cyfrannu at amcanion y Cyngor. Hefyd mae Adolygiadau Personol Aelodau yn eu lle i'w helpu i ddiweddarau eu gwybodaeth a dysgu sgiliau newydd, lle bo angen, i fod yn fwy effeithiol wrth gefnogi eu cymunedau. Cynigia Academi Cyngor Caerdydd nifer o raglenni a chyrtsiau dysgu a datblygu.

81. Mae iechyd a llesiant y gweithwyr yn flaenoriaeth i Strategaeth Gweithlu'r Cyngor. Parha'r Cyngor i gefnogi'r Addewid 'Amser i Newid', ac yn ystod 2017/18 cafodd ei gydnabod fel Cyflogwr Hyderus i Bobl Anabl, wedi llofnodi'r Siarter 'Dying to Work', ac mae'n gweithio tuag at fod yn sefydliad cyfeillgar â Dementia a chyflawni'r Wobr Arian Safon Iechyd. Mae'r Cyngor yn parhau i gyflenwi Strategaeth Iechyd a Llesiant Gweithwyr 2016-19 sy'n darparu fframwaith eang i ymdrin â rhwystrau i lesiant a nodi ffyrdd o wella llesiant y gweithiwr.
82. Cyhoeddodd y Cyngor Adroddiad Gwella Statudol Blynyddol, sy'n darparu gwerthusiad cryno ôl-weithredol o berfformiad ar gyfer 2016/17 fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Wrth asesu cynnydd yn erbyn Amcanion Gwella, defnyddiwyd nifer o ffynonellau gwybodaeth gan gynnwys adolygiadau o adroddiadau arolygu, arolygon, adborth, astudiaethau achos a mesurau perfformiad. Gellir nodi bod tueddiad perfformiad positif, gan fod 60% o ganlyniadau'r Dangosyddion Cenedlaethol yn well na chyfartaledd Cymru, o'i gymharu â 48% yn 2015/16. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd angen i'r Cyngor barhau i ymdrin â meysydd sy'n tanberfformio trwy drefniadau cynllunio yn y dyfodol.
83. Cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru Adroddiad Gwella Blynyddol 2016/17 ym mis Medi 2017, sef asesiad blaengar sy'n ystyried y tebygolrwydd o gydymffurfio â dyletswydd y Cyngor i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Nid oedd yr adroddiad yn nodi unrhyw argymhellion ffurfiol, ond gwnaethpwyd cynigion ar gyfer gwella, yn ymwneud â llywodraethu da wrth bennu newidiadau i'r gwasanaeth a threfniadau cynllunio ariannol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad:

'Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2017-18.'

F. Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.

84. Mae rheoli risg yn rhan annatod o wneud penderfyniadau strategol, gan ffurfio elfen allweddol o gynllunio busnes, cynigion cyllideb, strategaeth gyllidebol, rhaglenni ac ystyriaethau project. Cynhelir y Gofrestr Risg Gorfforaethol (CRR) a chaiff ei hadolygu gan yr UDRh bob chwarter i sicrhau ei bod yn cynnwys risgiau allweddol i weledigaeth, amcanion a blaenoriaethau corfforaethol. Defnyddiwyd Map Risg Corfforaethol hefyd trwy gydol 2017/18 i ddarparu cynrychiolaeth dryloyw o statws risgiau corfforaethol ac i gefnogi ymateb rheoli cymesur.
85. Arweinir y broses rheoli risg gan y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoli Risg, a chaiff ei chefnogi gan Hyrwyddwr Risg Aelodau a enwebir, Hyrwyddwr Risg Uwch Swyddogion a rhwydwaith o Hyrwyddwyr Risg Cyfarwyddiaeth. Cynlluniwyd y broses hon i sicrhau perchnogaeth glir o risgiau sy'n cael eu hadnabod, eu hadolygu a'u cynyddu'n systematig bob chwarter ariannol.
86. Yn dilyn adolygiad rheoli risg strategol, datblygwyd Strategaeth Rheoli Risg a Pholisi drafft gan y rhwydwaith rheoli risg ac fe'i hystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr 2018. Cychwynnodd proses o ymgynghori ac adolygu gan y Cabinet ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Rhagwelir y bydd y Strategaeth a'r Polisi Rheoli Risg yn cael eu cymeradwyo a'u gweithredu yn ail chwarter ariannol 2018/19.
87. Gwneir penderfyniadau ar sail adroddiadau gan Swyddogion sy'n cynnwys asesiadau o'r goblygiadau cyfreithiol, AD ac ariannol sy'n deillio o'r penderfyniad. Caiff y broses o ddarparu gwasanaethau ei monitro trwy gofrestrau risg a gwybodaeth ac adroddiadau perfformiad. Mae Adroddiad Gwella Statudol Caerdydd yn darparu crynodeb blynyddol o berfformiad yn erbyn dangosyddion a blaenoriaethau ac ymrwymadau corfforaethol Llywodraeth Cymru. Caiff projectau a rhaglenni eu monitro trwy ddefnyddio meini prawf PQA, gan gynnwys defnyddio cerrig milltir, cofrestrau risg a materion a methodoleg gwersi a ddysgwyd.

88. Dyluniwyd pum Pwyllgor Craffu sefydlog y Cyngor i gefnogi'r Cabinet i ddarparu gwasanaethau hygyrch, effeithlon ac effeithiol ar gyfer dinasyddion. Maent yn cwrdd bob mis i ymgymryd â chraffu cyn penderfynu, monitro ac adolygu polisiau, ac maent yn lansio ymholiadau manwl i helpu'r Cabinet i ddatblygu ac adolygu polisiau a gwasanaethau. Derbynnir yn llawn y mwyafrif o'r argymhellion a gyflwynir i'r Cabinet yn dilyn Ymchwiliadau Craffu. Llywodraethir nifer o weithgareddau cydweithredol y Cyngor gan Gydbwyllgorau; mae enghreifftiau yn cynnwys y Cyd-Gabinet (Rhanbarthol) Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru, Cydbwyllgor Project Gwyrdd, Cydbwyllgor Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir, a Chyd-bwyllgor Archifau Morgannwg.
89. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor ar effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol trwy raglen eang o waith. Mae gan y Pwyllgor Archwilio eitemau agenda safonol ar ei raglen waith ym mhob cyfarfod sy'n cynnwys; gwybodaeth gyllidebol ac ariannol, rheoli trysorlys, risg a llywodraethu, archwiliad mewnol, archwilio allanol a materion gweithredol. Mae'r Rheolwr Archwilio yn adrodd yn swyddogol i'r Pwyllgor Archwilio ac yn weinyddol i Swyddog Adran 151 y Cyngor.
90. Mae'r Tîm Archwilio Mewnol yn asesu llywodraethu fel rhan o'r mwyafrif o ymrwymiadau archwilio, ac mae'r adolygiad cyffredinol o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth wedi hysbysu'r datganiad sicrwydd blynyddol gan y Rheolwr Archwilio. Caiff yr holl argymhellion a gyhoeddir gan Archwilio Mewnol eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a'u holrhain i roi sicrwydd y gweithredir arnynt.
91. Caiff perfformiad ei fonitro'n rheolaidd o fewn cyfarwyddiaethau ar sail barhaus. Caiff aelodau ac uwch reolwyr wybodaeth perfformiad chwarterol ar sail cerdyn sgorio cytbwys, gyda pherfformiad yn cael ei fesur yn erbyn dangosyddion perfformiad sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r cynllun corfforaethol. Defnyddir y dull sgorio risg corfforaethol safonol i fesur perfformiad a galluogi cysondeb dealltwriaeth. Mae elfen ariannol y cerdyn sgorio cytbwys yn mesur amrywiadau rhwng y gyllideb a'r sefyllfa wirioneddol ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth mewn perthynas â sefyllfa gyffredinol y gyllideb, cyflenwi arbedion a chostau staff.
92. Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn ar gyfer rheolaeth fewnol. Mae'r polisi, y strategaeth a'r fethodoleg rheoli risg yn galluogi cysondeb mewn asesiadau risg ar draws y Cyngor, gyda chymorth portffolio o bolisiau a gweithdrefnau i sicrhau stiwardiaeth effeithiol o arian cyhoeddus, ymdrin â chamweinyddu, llygredd a thwyll, fel y'i crynhoir o dan Egwyddor A *Ymddwyn gydag uniondeb gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesol, a pharchu rheol y gyfraith.*
93. Mae trefniadau effeithiol yn eu lle i ddiogelu data personol. Yn ystod 2017/18, bu'r Cyngor yn paratoi ar gyfer y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a fydd yn dod i rym y flwyddyn nesaf. Rhoddodd y camau gweithredu sy'n pennu'r newidiadau mewn deddfwriaeth ffocws i'r gwaith, o alinio polisiau a phrosesau i godi ymwybyddiaeth. Y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau yw Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth y Cyngor, gyda chymorth tîm pwrpasol sy'n rheoli dull cyffredinol y Cyngor o reoli gwybodaeth. Mae Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth yn cynnwys cyfres o bolisiau, gweithdrefnau a chyfarwyddyd llywodraethu gwybodaeth i gefnogi cydymffurfio â Rheoliadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth / Gwybodaeth Amgylcheddol, Deddf Diogelu Data, Deddf Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig a Deddf Amddiffyn Rhyddid.
94. Mae Strategaeth Hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth yn cyd-fynd â'r Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth i alluogi dealltwriaeth glir o gyfrifoldebau corfforaethol ac unigol. Penna'r asesiad risg faint o hyfforddiant, gwybodaeth a chefnogaeth staff sy'n ofynnol i ddarparu'r sicrwydd angenrheidiol i'r Cyngor a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Cofrestrir yr aelodau gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel Rheolwyr Data unigol.
95. Fel yr amlinellir yn yr adran ar *Egwyddor D. 'Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i wneud y mwyafrif o gyflawniad y canlyniadau arfaethedig'*, rhoddwyd sylw sylweddol i reolaeth ariannol i

gefnogi perfformiad hirdymor a gweithredol, trwy gynllunio ariannol tymor canolig a mecanweithiau cadarnhau ariannol cadarn. Cafodd hyn ei integreiddio i bob lefel o gynllunio a rheolaeth, a chaiff ei olrhain trwy fonitro perfformiad o ganlyniadau a thrwy'r mecanweithiau rheoli risg corfforaethol.

G. Gweithredu arferion da mewn tryloywder, adrodd ac archwilio i ddarparu atebolrwydd effeithiol.

96. Mae'r Cyngor yn anelu at sicrhau yr ysgrifennir pob adroddiad i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill mewn modd teg, cytbwys a dealladwy. Mae hyn i sicrhau cydbwysedd rhwng darparu gwybodaeth lawn a chyflawn i ddangos tryloywder clir heb fod yn feichus neu'n rhy gymhleth.
97. Hefyd mae'r Cyngor yn anelu at ei gwneud yn hawdd i'r Cyngor a'r cyhoedd ganfod a defnyddio'r wybodaeth. Mae wedi mabwysiadu cynllun cyhoeddi model y Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n nodi'r dosbarthiadau o wybodaeth a ddylai fod ar gael yn rheolaidd.
98. Mae Adroddiad Gwella Statudol Blynyddol y Cyngor yn gwerthuso perfformiad, yn crynhoi canfyddiadau nifer o adroddiadau ar berfformiad, gan gynnwys mesurau corfforaethol a gwerthusiadau o gyflenwi yn erbyn y mesurau Beth sy'n Bwysig, cydraddoldeb, cynaliadwyedd a chraffu.
99. Mae'r DLIB yn asesiad o lywodraethu'r Cyngor a gymhwysir i'r fframwaith 'Cyflenwi Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol' Fframwaith CIPFA / SOLACE, fel yr amlinellir yn y *Broses Asesu a'r Crynodeb*.
100. I ddangos atebolrwydd, cwblheir Datganiadau Sicrwydd Uwch Reolwyr (SMAS) gan bob Cyfarwyddwr ddwywaith y flwyddyn i hunanasesu perfformiad yn erbyn set o ddatganiadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Caiff y sefyllfa gyffredinol ei hadolygu a'i hawdurdodi gan y Prif Weithredwr yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol, ac ar y pwynt hwnnw mae'r Datganiad Uwch Reolwyr cyffredinol yn cael ei gynnwys yn adran 4) *Y Broses Asesu a Chrynodeb*. Gyda'i gilydd, mae'r UDRh yn cynnal camau gweithredu llywodraethu sylweddol, sy'n cynrychioli datgeliad agored o'r materion llywodraethu mwyaf amlwg y mae angen sylw iddynt yn dilyn adolygiad SMAS. Cynhwysir Cynllun Gweithredu'r DLIB yn yr adran ganlynol.
101. Adolygir y cynllun gweithredu SMAS a DLIB o faterion llywodraethu sylweddol bob dwy flynedd gan yr UDRh, y Pwyllgor Archwilio a'r Tîm Rheoli Risg. Y nod yw sicrhau bod y Cyngor yn agored ac yn dryloyw a dynodi, cyfathrebu a rheoli materion sydd angen sylw corfforaethol.
102. Bydd y Cyngor yn cwrdd ym mis Mai bob blwyddyn i sefydlu Pwyllgorau: eu maint, eu cylch gorchwyl a'u dyraniad seddi. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi cylch gorchwyl pob un o'i Bwyllgorau a'r penderfyniadau y gall pob un o'r Pwyllgorau hynny eu cymryd, a chaiff ei adolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Cyfansoddiad. Penodwyd nifer o Bwyllgorau gan y Cyngor i gyflawni gwasanaethau rheoleiddio a chraffu ac maent yn cyflenwi adroddiadau blynyddol ar eu perfformiad a'u canfyddiadau.
103. Cyn i'r gwasanaethau gael eu cyflenwi trwy drydydd parti neu drwy drefniadau gweithio ar y cyd, mae'r Tîm Gwasanaethau Cyfreithiol yn cynorthwyo cyfarwyddiaethau i sicrhau bod cyfrifoldebau ac atebolrwydd llywodraethu a rheoli risg yn cael eu dogfennu'n ddigonol. Mae'r strategaeth a'r fethodoleg polisi rheoli risg yn mynnu bod trefniadau rheoli risg clir ym mha bynnag fodel o ddarpariaeth gwasanaeth a gaiff ei defnyddio.
104. Cyhoeddir gwybodaeth am berfformiad yn erbyn setiau data statudol NSI a PAM, fel y'u pennir gan Lywodraeth Cymru. Lle mae'r dangosyddion a'r mesurau hyn yn berthnasol i'r cynnydd a wneir yn erbyn Amcanion Gwella a Chytundeb Canlyniadau'r Cyngor, maent

wedi'u cynnwys yn Adroddiad Gwella'r Cyngor. Cynhwysa'r adroddiad hwn wybodaeth o ran trefn safle, i ddangos perfformiad yn glir ac yn dryloyw o'i gymharu ag Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

105. Cymerodd y Cyngor gamau i sicrhau y gweithredir ar argymhellion camau unioni a wneir gan archwiliad allanol, megis datblygu datganiad gweithredu ar gyfer y Dilyniant Aseiad Corfforaethol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2016, a phrojectau llywodraethu wedi'u targedu i gyflenwi'r gwelliannau gofynnol. Cymerir cyfleoedd i ddysgu o astudiaethau ehangach gan SAC trwy ddefnyddio system olrhain i nodi a chrynhai ystod o'u cyhoeddiadau ar gyfer gwybodaeth ac ystyriaeth y Pwyllgor Archwilio.
106. Mae gan y Cyngor Wasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol, a gefnogir gan wybodaeth ac adroddiadau am berfformiad, sydd wedi'i asesu'n allanol yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) ym mhob ffordd berthnasol. Mae'r PSIAS yn fesur canolog o effeithiolrwydd y swyddogaeth Archwilio Mewnol yn erbyn elfennau gorfodol y Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol, a chwblhawyd asesiad allanol yn chwarter 3 2017/18 gan CBS Rhondda Cynon Taf. Cynigiodd nifer fechan o argymhellion i wella gwybodaeth yn y Siarter Archwilio Mewnol, sydd wedi cael ei ddatblygu gan y Rheolwr Archwilio. Mae'r Siarter Archwilio Mewnol yn galluogi mynediad uniongyrchol i bob swyddog, rheolwr ac aelod, ac mae'n gwneud yn ofynnol cyflwyno adroddiad swyddogaethol i'r Pwyllgor Archwilio.
107. Mae Cyngor Caerdydd yn croesawu heriau, adolygiadau ac arolygiadau cyfoedion gan gyrrff rheoleiddio, fel ffordd o ddarparu sicrwydd ynglŷn â darpariaeth gwasanaethau neu nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliant.

iii) Cynllun Gweithredu DLIB – Materion Llywodraethu Sylweddol

108. Mae Cynllun Gweithredu o Faterion Llywodraethu Pwysig dan berchnogaeth yr Uwch Dîm Rheoli, ac yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n ffurfiol ddwywaith y flwyddyn. Wrth adolygu saith ffurflen SMAS y cyfarwyddwyr ym mis Mai 2018, penderfynodd yr Uwch Dîm Rheoli gadw'r pum mater llywodraethu o'r flwyddyn flaenorol ar y Cynllun Gweithredu AGS parhaus. Penderfynwyd gwneud hyn gan fod y materion yn parhau i fod yn feysydd allweddol i'w datblygu a'u monitro'n barhaus.
109. Gofynnwyd i bob aelod o'r Uwch Dîm Rheoli gyflwyno awgrymiadau o faterion llywodraethu pwysig newydd. Trafodwyd y materion newydd a gyflwynwyd yn yr Uwch Dîm Rheoli ym mis Mai 2018, ac ar ôl eu hadolygu ystyriwyd eu bod naill ai'n is-setiau o faterion llywodraethu presennol o'r cynllun gweithredu presennol neu'n gysylltiedig â risg gorfforaethol, y maent eisoes yn cael eu rheoli a'u hadrodd drwyddi.
110. O ganlyniad i'r adolygiad, mae'r pum mater i'w cyflwyno ar ddiwedd y flwyddyn wedi'u diweddarau a'u dangos yn y tabl isod. Bydd y materion yn y cynllun gweithredu yn parhau i gael eu rheoli a'u hadolygu'n ffurfiol ddwywaith y flwyddyn yn 2018/19.

Cario drosodd	Sefyllfa Ddiwedd Blwyddyn 2017/18
<p>Capasiti a Gwneud Penderfyniadau</p> <p>Mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol digynsail lle bu'n rhaid gwredu arbedion sylweddol, o ganlyniad mae Cyfarwyddiaethau wedi gweld gostyngiad mewn adnoddau staff sy'n cynyddu'r pwysau ar staff i fod â'r capasiti i roi cyngor proffesiynol a chadarn</p>	<p>Mae capasiti a gwneud penderfyniadau'r Cyngor yn cael ei ddatblygu drwy adolygiad o'r strwythurau rheoli a datblygu'r gweithlu.</p> <p>Cytunwyd ar aillstrwythuro a gwnaed penodiadau i'r swyddi canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau • Prif Swyddog Digidol • Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol • Disgwylir apwyntiadau pellach yn ystod Ch1 2018/19 <p>Datblygiad staff – mae hwn yn faes ffocws pwysig trwy Gynllunio'r Gweithlu. I gefnogi a gwella sgiliau presennol swyddogion:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae cyrsiau yn cael eu cynllunio gan yr Academi. • adolygydd rheolau Gweithdrefnau Ariannol a Rheolau Sefydlog Contractau yn ystod 2017/18 ac maent wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Cyfansoddiad. Bydd cyflwyno'r newidiadau yn cychwyn yn Ch1 2018/19 • Cynhelir Archwiliadau Thema ar Wneud penderfyniadau a llywodraethu ar gyfer pob cyfarwyddiaeth yn ystod 2017/18 a bydd canfyddiadau cyffredin yr archwiliadau hynny yn cael eu rhannu gyda'r UDRh yn ystod Ch1 2018/19
<p>Gallu a Chapasiti Comisiynu</p> <p>Yn y Fframwaith Trefniadol newydd mae'n hanfodol ein bod yn herio'r ddarpariaeth a blaenoriaethau gwasanaeth cyfredol. Mae llwyddiant nifer o raglenni yn dibynnu ar gael y gallu a'r capasiti hwn yn ei le e.e. trawsnewid lechyd a Gofal Cymdeithasol.</p>	<p>Mae pwysigrwydd Comisiynu yn parhau i fod yn allweddol nid yn unig ym mhopeth a wneir gan y Cyngor, ond hefyd o ran llwyddiant cyflenwi'r Uchelgais Prifddinas.</p> <p>Mae angen i'r Cyngor wella ei ddealltwriaeth o Gomisiynu yn ei gyfarwydd o ran cynnal dadansoddiad ystyrion i ddeall yr angen a llywio canlyniadau, ailgynllunio darpariaeth gwasanaethau o gwmpas y canlyniadau hynny, adolygu perfformiad y gwasanaethau presennol, ystyried modelau cyflenwi amgen neu sicrhau bod ein gwariant trydydd parti a marchnadoedd cysylltiedig yn cael ei reoli'n briodol.</p> <p>Er na fydd gallu a chapasiti comisiynu yn nodwedd benodol yn y rhaglen newydd, bydd rhai elfennau ynddi:</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd dadansoddiad data i ddeall anghenion yn ymddangos fel rhan o'r rhaglen Ddigidol • Bydd rhaglen o adolygiadau gwasanaeth yn cael ei chyflenwi ar draws pob Cyfarwyddiaeth sy'n adeiladu ar y gwaith a wnaed yn flaenorol, a bydd hefyd yn ystyried trefniadau gwario trydydd parti ac yn ystyried modelau cyflenwi eraill. <p>Mae'r broses Adolygu Gwasanaeth bellach wedi'i dylunio a'i gweithredu, gyda llywodraethu wedi'i sefydlu (Grŵp Llywio'r Adolygiad Gwasanaeth, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Adnoddau) ac mae'r adolygiadau cyntaf bellach ar y gweill. Gwneir gwaith i sefydlu llinell sylfaen data ar gyfer meysydd gwasanaeth a swyddogaethau ar draws y Cyngor i sicrhau dilyniant priodol o adolygiadau yn y dyfodol.</p>
<p>Costau Perthnasol a Gwneud Penderfyniadau</p> <p>Mae angen rhoi cyfrif mwy tryloyw am weithgareddau swyddogaethol mewnol ac anghenion perfformiad o fewn y corff cyfan. Mae hyn yn cynnwys sicrhau mwy o ymwybyddiaeth o gostau mewn penderfyniadau busnes, megis projectau sydd â mwy o atebolrwydd a thryloywder o ran taliadau a chostau.</p>	<p>Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella ymwybyddiaeth costau mewn projectau, gyda chymorth staff cyllid.</p> <p>Bwrdd Adolygu Buddsoddiadau – mae hwn wedi cwrdd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, yn derbyn Achosion Busnes ac adroddiadau cynnydd mewn perthynas â phrojectau unigol. Mae'r ffocws ariannol ar werth am arian, dychweliad ariannol ar fuddsoddiad, adnabod cyllid a chasglu arbedion ariannol.</p> <p>Trosglwyddo gwybodaeth - Mae angen sicrhau bod trosglwyddo gwybodaeth gref gan y ddau reolwr mewnol sy'n gysylltiedig â chefnogaeth project o'r sefydliadau allanol yr ydym yn gweithio gyda hwy. Mae Trosglwyddo Gwybodaeth wedi symud ymlaen yn ystod 2017/18 mewn perthynas â gwaith project a wnaed ym maes Swyddogaeth Landlord Corfforaethol. Gwnaed gwaith trosglwyddo gwybodaeth anffurfiol arall mewn meysydd eraill.</p>
<p>Llywodraethu Partneriaeth/ Cydweithredu</p> <p>Mae angen i lefel llywodraethu, sicrwydd ac adrodd sy'n ofynnol ar gyfer gweithgareddau partneriaeth a chydweithredol y Cyngor gael eu pennu a'u diffinio'n llawnach er mwyn sicrhau bod dull cyson a chymesur yn cael ei ddefnyddio.</p>	<p>Mae'r trefniadau llywodraethu gofynnol ar draws gweithgarwch datblygu partneriaeth a sefydliadol allweddol yn cael eu datblygu a'u hystyried gan yr Uwch Dîm Rheoli corfforaethol (UDRh) / Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC).</p> <p><u>Gweithio mewn Partneriaeth Gorfforaethol</u> Bellach mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ei sefydlu'n llawn gyda model dwy haen yn ei le (y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus cyffredinol - dan gadeiryddiaeth Arweinydd y Cyngor - wedi'i ategu gan y Bwrdd Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus - dan gadeiryddiaeth Prif Weithredwr y Cyngor).</p> <p>Yn dilyn hyn, mae dau ddarn o waith cysylltiedig yn digwydd. Yn gyntaf, mae strwythurau a threfniadau llywodraethu o dan y Bwrdd Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'u hadolygu, gyda newidiadau yn cael eu gwneud lle bo angen. Yr esiampl fwyaf arwyddocaol o hyn yw ailgalibradu'r trefniadau partneriaeth diogelwch cymunedol ar gyfer y ddinas. Bydd hyn - a newidiadau eraill - yn sicrhau bod gan y BGC y llywodraethu angenrheidiol i gyflawni'r uchelgais heriol a nodir yng Nghynllun Llesiant y ddinas.</p> <p>Yr ail ddarn o waith sydd bron â'i gwblhau yw'r adolygiad o strwythurau llywodraethu'r Cyngor i alluogi cyflenwi Uchelgais Prifddinas yn llwyddiannus. Mae hyn wedi cynnwys datblygu grwpiau newydd (megis Bwrdd Digidol Caerdydd, dan gadeiryddiaeth Prif Weithredwr y Cyngor), datblygiad parhaus grwpiau eraill (e.e. Grŵp Cefnogi Perfformiad y Cyngor) ac integreiddio strwythurau partneriaeth presennol i mewn i fusnes craidd Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor. Bydd y trefniadau hyn yn rhoi'r offer a'r sicrwydd angenrheidiol i Dîm Uwch Reolwyr y Cyngor i gyflawni'r amcanion estynedd a nodir yn y Cynllun Corfforaethol ac, yn y pen draw, Uchelgais Prifddinas, gan weithio mewn partneriaeth â'r asiantaethau a'r sefydliadau hynny sy'n allweddol i lwyddiant cyffredinol Caerdydd.</p> <p><u>Gweithio mewn Partneriaeth Cyfarwyddiaeth</u></p>

	<p>Ar lefel cyfarwyddiaeth, mae nifer helaeth o bartneriaethau a threfniadau cydweithio ar draws ystod o swyddogaethau. Mae llawer o'r trefniadau partneriaeth a chydweithio hyn yn fecanwaith sydd gennym i liniaru risg sylweddol, er enghraifft, mae'r grŵp Partneriaeth Diwygio Llesiant yn fodd o gydlynu gweithgaredd i leihau effaith y newidiadau hynny ledled y Ddinas. Oherwydd y nifer helaeth a'r ffordd organig y mae rhai trefniadau wedi eu ffurfio, efallai y bydd rhywfaint lle nad oes llywodraethu priodol wedi'i sefydlu, fel Cylch Gorchwyl wedi'i ddogfennu.</p> <p>Fel egwyddor arweiniol, defnyddir cwmpas a lefel y gallu gwneud penderfyniadau i benderfynu ar lefel a maint llywodraethu partneriaeth/cydweithredol. Mae uwch swyddogion wedi cydnabod bod angen gwaith pellach i ddiffinio a chyfathrebu'r lefelau llywodraethu gofynnol yn seiliedig ar natur a chwmpas gwahanol fathau o gydweithredu i gefnogi cysondeb.</p>
<p>Arbedion Cadarn a Chynaliadwy</p> <p>Mae angen sicrhau bod achosion busnes cadarn yn sail gyson i gynigion arbedion cyraeddadwy. Wrth sicrhau bod penderfyniadau yn cwmpasu anghenion cenedlaethau'r dyfodol, mae angen sicrhau hefyd bod ystyriaeth ddogfennol o gynaliadwyedd y gwasanaethau a lliniaru risgiau (e.e. asedau, technoleg, AD a chyflenwi gwasanaethau).</p>	<p>Achosion Busnes - Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod achosion busnes manwl, sy'n cynnwys gwybodaeth ariannol ac anariannol cefnogol a chryf, yn sail gyson i'r holl gynigion arbedion.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd adolygiadau atebion Gwasanaeth a Digidol yn dechrau yn gynnar yn Ch1 er mwyn darparu rhagor o dystiolaeth a manylion i gynigion arbedion newydd a rhai presennol a gyflwynir ar gyfer 2018/19 ac i'w hystyried ar gyfer 2019/20. • Fel yr adroddwyd yn Adroddiad Cyllideb 2018/19, roedd 90% o'r cynigion naill ai'n cael eu gwireddu neu gyda chynllun manwl yn ei le. Parhaodd gwaith pellach ym mis Mawrth i leihau ymhellach werth cynigion arbedion nad oedd ganddynt gynllun. • Mae gan 52% o gynigion cyllideb 2017/18 gyfradd risg cyrhaeddiad Oren / Gwyrdd neu islaw. Bydd y gwaith yn parhau er mwyn cynyddu'r ffigwr hwn yn ystod y flwyddyn ar gyfer cynigion 2018/19 a darparu lliniaru pellach i gynigion arbedion 2019/20. <p>Adolygiad Risg Manylach - Cwblhawyd adolygiad risg manylach ar gyfer ceisiadau am arian cyfalaf ar gyfer 2018/19 ymlaen i wella'r wybodaeth ategol a ddarparwyd fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae gwaith pellach ar y gweill i ystyried a mireinio'r wybodaeth a'r dadansoddiad risg a'r lefel briodol sydd ei hangen i gefnogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. • Gan adeiladu ar broses gyllideb 2018/19, bydd y fethodoleg asesu risg ar gyfer ceisiadau am arian cyfalaf cynlluniau parhaus a newydd yn cael ei gwella ymhellach a'i mewnosod yn strategaeth y gyllideb ar gyfer 2019/20.

Materion Sylweddol – Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg.

111. Yn ystod 2017/18, gwnaeth y Cyngor Gytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA) gyda'r saith awdurdod gweinyddu CPLIL arall yng Nghymru i sefydlu Partneriaeth Pensiwn Cymru (WPP). Mae'r WPP yn rheoli cyfuno buddsoddiadau ar gyfer cronfeydd pensiwn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru ac mae'n cael ei oruchwylio gan Bwyllgor Llywodraethu ar y Cyd (JGC) sy'n cynnwys un aelod etholedig o bob awdurdod. Cefnogir y JGC gan Weithgor Swyddogion sy'n cynnwys Trysoryddion a Swyddogion Buddsoddi'r gronfa.
112. Mae'r IAA yn nodi pwerau gwneud penderfyniadau'r JGC a'r pwerau a gedwir yn yr awdurdodau cyfansoddol. Mae pob awdurdod yn cadw'r cyfrifoldeb pennaf am reoli ei gronfa pensiwn o dan y Rheoliadau CPLIL.
113. Ystyrir y gallai fod gan y canlynol oblygiadau posibl ar gyfnodau ariannol yn y dyfodol ac mae'n werth eu nodi yn y datganiad hwn.

Mater Sylweddol	Sefyllfa Ddiwedd Blwyddyn 2017/18	Swyddog Cyfrifol
<p>Partneriaeth Pensiwn Cymru – Cronfa Fuddsoddi Cymru.</p> <p>Ffurfiodd yr wyth awdurdod gweinyddu CPLIL yng Nghymru contract ym mis Rhagfyr 2017 gyda Link Fund Solutions. Bydd Link a'u partneriaid Russell Investments yn sefydlu ac yn gweithredu'r cerbydau cyfuno sy'n ofynnol gan y WPP.</p> <p>Bydd y cronfeydd cyfun cychwynnol yn cael eu creu yn ystod 2018/19.</p>	<p>Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg i barhau i gymryd rhan yn natblygiad trefniadau cyfuno buddsoddi trwy'r Cydbwyllgor Llywodraethu a'r Gweithgor Swyddogion.</p> <p>Adroddir yn rheolaidd ar ddatblygiadau i'r Pwyllgor Pensiynau, y Panel Cyngori ar Fuddsoddi a'r Bwrdd Pensiwn Lleol.</p>	<p>Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau</p>

Ardystiad gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr

Y Cyngorydd Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd

Dyddiad:

Paul Orders, Prif Weithredwr

Dyddiad: